

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol

Cynnwys

AMCAN CCS 1 DIWYLLIANT A LLYWODRAETHU	tud 3
AMCAN CCS 2 CYDWEITHIO, CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD.....	tud 4
AMCAN CCS 3 AMRYWIAETH CORFF Y MYFYRWYR A PHROFIAD Y MYFYRWYR	tud 5 a 6
AMCAN CCS 4 DENU, CADW A DATBLYGU STAFF	tud 7
AMCAN CCS 5 HYGyrCHEDD	tud 8
AMCAN CCS 6 CYNHWYSIANT MEWN ARFER PROFFESIYNOL	tud 9
AMCAN CCS 7 CYFLOG CYFARTAL	tud 10
AMCAN CCS 8 CASGLU DATA A MONITRO	tud 10

ALLWEDD	
TERM/ACRONYM	DIFFINIAD
Athena SWAN	Siarter ar gyfer cydraddoldeb rhywiol, cynrychiolaeth a dilyniant mewn AU
CLTEC	Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwella y Coleg
CQAC	Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd y Coleg
CUK	Conservatoires UK
EDI	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
EDIC	Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
AEG	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
FDS	Ffederasiwn Ysgolion Drama
AU	Addysg Uwch
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
FfRhY	Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil
CCS	Cynllun Cydraddoldeb Strategol

ALLWEDD	
UDRh Sponsor	Teitl swydd
Helena Gaunt	Prifathro
Mark Davies	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Brian Weir	Cyfarwyddwr Gweinyddu Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr
Sean Crowley	Cyfarwyddwr Drama
Tim Rhys-Evans	Cyfarwyddwr Cerddoriaeth
Jonathan Mundy	Cyfarwyddwr Perfformio (Drama)
Kevin Price	Cyfarwyddwr Perfformio (Cerddoriaeth)
Lucy Stout	Cyfarwyddwr Datblygu
Kate Stokes-Davies	Cyfarwyddwr Materion Allanol

AMCAN 1 | DIWYLLIANT A LLYWODRAETHU

Hyrwyddo urddas, parch, cynhwysiant a thegwch yng nghymuned y Coleg a gwreiddio cydraddoldeb yng ngwaith gwneud penderfyniadau y Coleg

CYF	GWEITHREDU	CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL (NODDWR)	AMSERLEN	ATEBOLRWYDD
1.1	Amrywio aelodaeth o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Pwyllgorau er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau archwiliad o gynrychiolaeth y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r pwyllgorau er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth (Helena Gaunt) Sicrhau bod gan bob un o bwyllgorau academiaidd y Coleg aelodaeth gydag o leiaf dair nodwedd warchoddedig (Brian Weir) 	Rhagfyr 2020 Medi 2021	UDRh/ Bwrdd Academiaidd UDRh / Bwrdd Academiaidd
1.2	Gwreiddio rhyngweithio neu gefnogaeth effeithiol ac atebolrwydd o'r EDIC i bwyllgorau eraill y Coleg	<ul style="list-style-type: none"> Alinio amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i holl strategaethau'r Coleg, yn cynnwys y Strategaeth Academiaidd sy'n dod i'r amlwg (Helena Gaunt) Sicrhau'n benodol bod yr EDIC yn cynnwys yr allanol (drwy'r proffesiwn a'n cyn-fyfyrwyr) a'r rheini sy'n uniaethu â nodweddion gwarchoddedig (Brian Weir) 	Medi 2021 Medi 2021	UDRh / Bwrdd Academiaidd EDIC
1.3	Sicrhau bod AEG yn cael eu cwblhau ar draws holl ddatblygiadau polisi a phenderfyniadau sefydliadol	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi mecanwaith AEG ar waith ar draws holl ddatblygiadau polisi a phenderfyniadau sefydliadol, gan sicrhau cydymffurfedd ar draws holl bwyllgorau a chyfarfodydd (Helena Gaunt) Ychwanegu materion EDI fel eitemau agenda sefydlog i holl bwyllgorau a chyfarfodydd y Coleg, yn cynnwys Byrddau Cyrsiau (Brian Weir) 	Rhagfyr 2020 Medi 2020	UDRh UDRh
1.4	Datblygu fframwaith cryfach ar gyfer myfyrwyr fel partneriaid, gyda chyfeiriad penodol at	<ul style="list-style-type: none"> Gwella cynrychiolaeth myfyrwyr ar bob pwyllgor, yn cynnwys rhaglennu artistig (Brian Weir) 	Mawrth 2021 Mawrth 2021	UDRh CLTEC

	amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol	<ul style="list-style-type: none"> • Recriwtio/dewis a hyfforddi cynrychiolwyr myfyrwyr ynglŷn ag amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan ddatblygu gwybodaeth sefydliadol am ethos ac amgylchedd y Coleg (Brian Weir) 		
--	--	--	--	--

AMCAN 2 | CYDWEITHIO, CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Sicrhau bod gwaith ymgysylltu yn digwydd gyda staff, myfyrwyr a grwpiau o bobl leol o'r sector gwirfoddol sydd â nodweddion gwarchoddedig, drwy gydweithio, cyfathrebu ac ymgynghori

CYF	GWEITHREDU	CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL (NODDWR)	AMSERLEN	ATEBOLRWYDD
2.1	Datgan a monitro amcanion EDI ar draws digwyddiadau ychwanegol y Coleg, yn cynnwys llogi masnachol, a phrosiectau a guradir gan y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig	<ul style="list-style-type: none"> • Datgan cynlluniau ar gyfer dull wedi'i dargedu i hyrwyddo ystod fwyfwy amrywiol o ddigwyddiadau'r Coleg, yn cynnwys curadu prosiectau gan y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig (Kate Stokes Davies) • Sicrhau yr ymgynghorir yn rheolaidd â myfyrwyr a staff sydd â nodweddion gwarchoddedig gan ystyried gweithgarwch masnachol y Coleg drwy weithgor penodol (Kate Stokes Davies) 	March 2021 Rhagfyr 2020	UDRh UDRh
2.2	Datgan a monitro amcanion EDI ar draws holl weithgarwch allgymorth	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio'n uniongyrchol â myfyrwyr Cyn-Coleg i wella cyfleoedd, ac ymgysylltu a chefnogi'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig (Helena Gaunt) • Parhau ein perthynas gyda First Campus a datblygu ymhellach brosiectau creadigol i ymgysylltu â grwpiau a dargedir (plant CA2-4, pobl ifanc o gefndiroedd gofal a'r rheini sydd heb gymwysterau Lefel 4) (Kate Stokes Davies) • Ymrwymo i gynlluniau wedi'u targedu i gynyddu amrywiaeth ymhlith y rheini sy'n ymgysylltu â gweithgareddau allgymorth (Jonathan Mundy a Kevin Price) 	Medi 2021 Medi 2020 Medi 2021	Cyn-Coleg Cyn-Coleg Bwrdd Academaidd
2.3	Gwreiddio amcanion EDI yn ein strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd, a chwmpasu ymwybyddiaeth a chefnogaeth i ymgyrchoedd cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> • Ymrwymo i annog cyfleoedd addysgol i bawb, a rhoi tystiolaeth o hynny yn ein Strategaeth Materion Allanol (Kate Stokes Davies) • Eu rhoi yn ein calendrau a chyhoeddi'n gyhoeddus ein cefnogaeth i ymgyrchoedd cenedlaethol a threfnu calendr cymdeithasol sy'n cynrychioli ein cymuned amrywiol (Kate Stokes Davies) 	Mawrth 2021 Medi 2021	UDRh/ Bwrdd Academaidd Rhaglennu Creadigol

AMCAN 3 | AMRYWIAETH CORFF Y MYFYRWYR A PHROFIAD Y MYFYRWYR

Denu, dethol a chadw ystod amrywiol o fyfyrwyr i astudio yn y Coleg a chreu amgylchedd sy'n annog ac yn cefnogi pob myfyriwr i ymgysylltu â gwireddu ei lawn botensial

CYF	GWEITHREDU	CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL (NODDWR)	AMSERLEN	ATEBOLRWYDD
3.1	Datgan yn glir dargedau recriwtio myfiwyr yn ymwneud ag amcanion CCS, gyda chefnogaeth i'w cyflawni	<ul style="list-style-type: none"> Cytuno ar strategaeth er mwyn neilltuo ysgoloriaethau doniau a chymorth bwrsariaeth ar gyfer myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig, a rhai o gefndiroedd incwm isel (Lucy Stout) Adolygu hygyrchedd recriwtio myfyrwyr er mwyn canfod pa rwystrau sy'n bodoli ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig (Tim Rhys Evans a Sean Crowley) Archwilio targedau recriwtio myfyrwyr sy'n hano o Gymru ar gyfer y grwpiau mwyaf amddifadus ac sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf yng Nghymru (Tim Rhys Evans a Sean Crowley) Gosod targedau cynyddol, ac adrodd arnynt, er mwyn cynyddu amrywiaeth ein cymuned myfyrwyr, gyda chynlluniau allgymorth ac ymgysylltu ar gyfer pob rhaglen gradd (Kate Stokes Davies) 	<p>Rhagfyr 2020</p> <p>Mawrth 2021</p> <p>Mawrth 2021</p> <p>Mawrth 2021</p>	<p>UDRh</p> <p>CLTEC</p> <p>CLTEC</p> <p>CQAC/ Bwrdd Academaidd/ UDRh</p>
3.2	Sicrhau bod amcanion CCS yn cael eu datgan a'u monitro ar draws datblygiad rhaglen academaidd y Coleg	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod pob rhaglen gradd yn cefnogi ac yn cysylltu myfyrwyr ar draws pob nodwedd warchoddedig er mwyn sicrhau profiad myfyrwyr llyfn (Jonathan Mundy a Kevin Price) Gweithredu amcanion EDI ym mhob datblygiad portffolio academaidd a monitro'n flynyddol, gan sicrhau eu bod yn cael eu hystyried fel dysgu craidd wrth adolygu meini prawf (Brian Weir) Aseu effaith pob dilysiad (ailldiliad) a hefyd, sicrhau bod amrywiaeth wedi'i gynnwys ym mhob fframwaith cwrs (Tim Rhys Evans a Sean Crowley) 	<p>Medi 2020</p> <p>Rhagfyr 2020</p> <p>Medi 2021</p>	<p>UDRh</p> <p>Bwrdd Academaidd</p> <p>Bwrdd Academaidd</p>

3.3	Cymryd camau systematig i greu amgylchedd dysgu cwbl gynhwysol, yn y Coleg ac yng Nghaerdydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr ac eraill, trefnu diwrnodau codi ymwybyddiaeth cysylltiedig â materion EDI ar gyfer myfyrwyr (Brian Weir) • Lansio cyfnod ymsefydlu gwell dros bythefnos ar gyfer pob myfyriwr newydd, yn cynnwys sesiynau'n canolbwyntio ar EDI (Helena Gaunt) • Cynyddu amrywiaeth cefnogaeth broffesiynol o fewn gwaith Cefnogi Myfyrwyr i gefnogi myfyrwyr lliw (Brian Weir) • Trefnu ymgyrchoedd gwasanaethau Myfyrwyr penodol i gefnogi pontio ac integreiddiad myfyrwyr newydd sydd â nodweddion gwarchoddedig i'r Coleg a Chaerdydd (Brian Weir) • Datblygu rhwydweithiau cefnogi ar gyfer myfyrwyr ar draws nodweddion gwarchoddedig, gyda phresenoldeb drws agored rheolaidd yn y Coleg a chydweithio gyda Chymdeithasau Rhyddhad Undeb y Myfyrwyr (Brian Weir) 	Medi 2020 Medi 2020 Rhagfyr 2020 Rhagfyr 2020 Rhagfyr 2020	Gwasanaethau Myfyrwyr Gwasanaethau Myfyrwyr Gwasanaethau Myfyrwyr Gwasanaethau Myfyrwyr
3.4	Cefnogi dilyniant myfyrwyr ar draws rhaglenni gradd a thrwy'r adran Cyn-coleg	<ul style="list-style-type: none"> • Ymestyn y gronfa caledi myfyrwyr i gryfhau gallu'r Coleg i leihau anghydraddoldeb ariannol (Lucy Stout) • Mabwysiadu cynllun cyfathrebu i hysbysu, annog a chefnogi myfyrwyr i godi materion, yn ffurfiol neu'n anffurfiol (Brian Weir) • Gweithredu polisi 'Urddas wrth Astudio' sy'n alinio i amcanion CCS (Brian Weir) • Sefydlu llwybrau dilyniant effeithiol ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig ar raglenni Cyn-Coleg i ymuno â'r Coleg (Jonathan Mundy a Kevin Price) 	Medi 2020 Rhagfyr 2020 Medi 2021 Medi 2021	UDRh Gwasanaethau Myfyrwyr UDRh Cyn-Coleg

AMCAN 4 | DENU, CADW A DATBLYGU STAFF

Denu, cadw a datblygu ystod amrywiol o bobl i weithio i'r Coleg a galluogi iddynt gael mynediad at ddatblygiad a dilyniant gyrfa agored a thryloyw

CYF	GWEITHREDU	CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL (NODDWR)	AMSERLEN	ATEBOLRWYDD
4.1	Gwreiddio amcanion CCS yn ein Cynllun Pobl	<ul style="list-style-type: none"> Diweddarau'r polisi 'Urddas yn y Gwaith' presennol i gynnwys cefnogaeth gynhwysfawr ar gyfer themâu EDI (Mark Davies) 	Medi 2021	UDRh
4.2	Sicrhau strategaeth ymgysylltu gynhwysfawr i ddenu staff sydd â nodweddion gwarchoddedig	<ul style="list-style-type: none"> Canolbwyntio diwrnod datblygu staff yn nhymor yr hydref 2020 ar ymwybyddiaeth a hyfforddiant EDI, a lansio hyb adnoddau dysgu newydd wedi'i guradu (Helena Gaunt) Gwreiddio o leiaf un aelod o staff (person lliw) o fewn meysydd Drama a Cherddoriaeth sydd â chyfrifoldeb am gefnogaeth fugeiliol a chynnwys y cwricwlwm yn eu hadrannau perthnasol (Helena Gaunt) Adolygu'r holl brosesau recriwtio staff a gosod targedau priodol ar gyfer cynyddu amrywiaeth a dilyniant (Mark Davies) 	Medi 2020 Mawrth 2021 Mawrth 2021	UDRh UDRh/ Bwrdd Academaidd UDRh
4.3	Sicrhau bod ein fframweithiau a rhwydweithiau datblygu a dilyniant gyrfa yn cefnogi ein hamcanion CCS	<ul style="list-style-type: none"> Nodi a hyrwyddo cyfleoedd datblygu/cynlluniau ar gyfer staff sydd â nodweddion gwarchoddedig (Mark Davies) Sefydlu grwpiau rhwydwaith gefnogi ar gyfer staff o bob nodwedd warchoddedig (Brian Weir) 	Medi 2020 Rhagfyr 2020	UDRh EDIC
4.4	Darparu hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu rhaglen hyfforddiant ar gyfer yr holl staff i'w haddysgu ymhellach ar themâu EDI. (Helena Gaunt) Ffurio is-grwpiau ar gyfer meysydd gwaith sydd angen hyfforddiant penodol (e.e. recriwtio, dilyniant myfyrwyr) (Mark Davies) Cwblhau cynllun peilot o'r rhaglen well (Helena Gaunt) 	Rhagfyr 2020 Mawrth 2021 Medi 2021	UDRh UDRh UDRh

AMCAN 5 | HYGyrCHEDD

Sicrhau bod adeiladau a seilwaith y Coleg yn adlewyrchu anghenion amrywiol ein cymunedau ac yn darparu amgylcheddau gweithio a dysgu hygrych a chynhwysol

CYF	GWEITHREDU	CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL (NODDWR)	AMSERLEN	ATEBOLRWYDD
5.1	Archwiliad cyfleusterau	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi archwiliad cyfleusterau, gydag argymhellion (Mark Davies) Cynnydd mewn darpariaeth toiledau niwtral o ran rhywedd (Mark Davies) Cyflwyno gofodau ar gyfer gweddi grefyddol (Mark Davies) 	Medi 2021 Medi 2021 Medi 2021	Ystadau/UDRh UDRh UDRh
5.2	Adolygiad Hygrychedd Meddyliol	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi adolygiad hygrychedd meddyliol (Brian Weir) 	Medi 2021	UDRh
5.3	Targedau ar gyfer perfformiadau hygrych	<ul style="list-style-type: none"> Ymrwymo i ddarparu un sioe Cwmni Richard Burton yn ystod pob rhediad fel perfformiad hygrych (Kate Stokes Davies) Asesu'r posibilrwydd o brynu offer creu capsynau ar gyfer darpariaeth bellach (Kate Stokes Davies) Sicrhau bod yr holl adnoddau sy'n wynebu'r cyhoedd yn hygrych i'r holl gynulleidfaedd (Kate Stokes Davies) 	Medi 2020 Medi 2020 March 2021	UDRh UDRh UDRh/ Bwrdd Academaidd
5.4	Adnoddau ar-lein a rhai s'n wynebu'r cyhoedd	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio ein hadnoddau dysgu ar-lein, gan sicrhau eu bod yn hawdd eu cyrchu i'r holl ddefnyddwyr (Brian Weir) 	Medi 2021	UDRh/ CLTEC

AMCAN 6 | CYNHWYSIANT MEWN ARFER PROFFESIYNOL

Datblygu dull cynhwysol ar gyfer ymchwil, lle caiff cynnwys pobl o grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig ei hyrwyddo ac y caiff rhwystrau i gyfranogiad pobl o grwpiau amrywiol eu dileu

CYF	GWEITHREDU	CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL (NODDWR)	AMSERLEN	ATEBOLRWYDD
6.1	Gwreiddio amcanion CCS mewn strategaeth ymchwil ac arloesedd, yn cynnwys ymgysylltu â staff a dilyniant drwy ymchwil, polisi moesegau, FfRhY ac Arloesedd CCAUC	• Gwreiddio amcanion CCS yn ein Strategaeth Ymchwil newydd (Helena Gaunt)	Medi 2020	Pwyllgor Ymchwil
		• Sicrhau y rhoddir ystyriaeth foesegol wrth gynllunio pob gweithgarwch ymchwil, ac os yn briodol wedi'i gymeradwyo'n foesegol (Helena Gaunt)	Medi 2020	Pwyllgor Ymchwil
		• Sicrhau bod cyflwyniad FfRhY y Coleg yn amlygu themâu EDI (Helena Gaunt)	Gorffennaf 2021	Pwyllgor Ymchwil
6.2	Athena SWAN	• Asesu hyfywedd bod y Coleg yn ymgysylltu ag Athena SWAN (Helena Gaunt)	Gorffennaf 2021	Pwyllgor Ymchwil
6.3	Ymgysylltu gydag ystod fwy amrywiol o ddarlithwyr/perfformwyr/artistiaid ar ymweliad	• Sicrhau bod y Strategaeth Rhaglennu Creadigol yn gwreiddio themâu EDI (Kate Stokes Davies)	Medi 2021	UDRh
6.4	Ymgysylltu gyda sefydliadau'r sector i hyrwyddo themâu EDI	• Sefydlu a datblygu ymhellach bartneriaethau cydweithredol ar draws CUK, FDS a chyrrff y diwydiant yn genedlaethol a rhyngwladol er mwyn rhannu arfer gorau (Helena Gaunt)	Medi 2021	UDRh

AMCAN 7 | CYFLOG CYFARTAL

Cynnal Adolygiadau Cyflog Cyfartal fel rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru bob tair blynedd a rhoi'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynlluniau Gweithredu Cyflog Cyfartal ar waith

CYF	GWEITHREDU	CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL (NODDWR)	AMSERLEN	ATEBOLRWYDD
7.1	Cynnal a chyhoeddi Adolygiad Cyflog Cyfartal cynhwysfawr	<ul style="list-style-type: none"> Amlinellu amserlen ar gyfer pryd y cynhelir Adolygiad Cyflog Cyfartal a chytuno ar yr angen i fonitro'n flynyddol (Mark Davies) 	Medi 2020	UDRh
7.2	Mabwysiadu a gweithredu Cynllun Gweithredu Rhywedd penodol sy'n deillio o'r Adolygiad	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Rhywedd (Mark Davies) 	Medi 2021	UDRh
7.3	Datblygu dulliau casglu data effeithiol yn ymwneud â Chyflog Staff	<ul style="list-style-type: none"> Cyfathrebu'n glir wrth staff ac annog adrodd agored (Mark Davies a Brian Weir) 	Medi 2021	UDRh

AMCAN 8 | CASGLU DATA A MONITRO

Gwella'r gwaith o gasglu, dadansoddi a monitro data cydraddoldeb a gwybodaeth cydraddoldeb berthnasol

CYF	GWEITHREDU	CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL (NODDWR)	AMSERLEN	ATEBOLRWYDD
8.1	Monitro data myfyrwyr yn systematig	<ul style="list-style-type: none"> Casglu data cywir ynglŷn â recriwtio, dilyniant a chyflawniad myfyrwyr ac wedi hynny cytuno ar weithredu wedi'i dargedu 	Medi 2021	LTEC
8.2	Dadansoddi data cynulleidfaoedd yn systematig	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi data arolwg cynulleidfaoedd gyda gweithredu wedi'i dargedu ar draws holl amcanion CCS (Kate Stokes Davies) 	Medi 2021	UDRh
8.3	Dadansoddi data staff yn systematig	<ul style="list-style-type: none"> Lansio, adolygu a chyhoeddi canfyddiadau a chynllun gweithredu sy'n deillio o arolwg staff cyfan newydd sy'n mynd i'r afael ag amcanion CCS (Mark Davies) 	Medi 2021	UDRh